Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **12 Medi 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod y rheolau ar gyfer atal, rheoli a gwaredu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol.

- Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

- Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

**Diben y diwygiadau**
Mae Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 wedi'u diwygio yn sgil diwygiadau diweddar i gyfraith yr UE y cytunwyd arnynt yn yr UE, pan oedd yn rhy hwyr i'w cynnwys mewn offerynnau ymadael â'r UE cynharach. Mae diwygiadau diweddar yr UE wedi'u rhestru isod:

- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/1084 dyddiedig 25 Mehefin 2019, sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 142/2011 o ran cysoni'r rhestr o sefydliadau, planhigion a gweithredwyr cymeradwy neu gofrestredig a'r gallu i olrhain rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/1090 dyddiedig 26 Mehefin 2019, sy'n diwygio Atodiad IV i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n

ymwneud â'r gofynion ar gyfer allforio cynhyrchion sy'n cynnwys protein anifeiliaid wedi'i brosesu sy'n dod o anifeiliaid cnoi cil ac anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/1177 dyddiedig 10 Gorffennaf 2019 sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 142/2011 o ran mewnforio gelatin, perfeddion sy'n creu cyflasynnau a brasterau wedi'u rendro.

Fel rhan o'r diwygiadau i Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, mae un o swyddogaethau'r Comisiwn yn Erthygl 30(1) o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 yn cael ei throsglwyddo'n gydredol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, ond caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond ei harfer os rhoddir cydsyniad gan Weinidogion Cymru. Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â chyhoeddi manylebau technegol a gyhoeddwyd i helpu'r broses o restru sefydliadau a phlanhigion mewn trydydd gwledydd.

Mae Atodiad 4 o Reoliad (EC) Rhif 999/2001 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i Reoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/1090. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae dwy swyddogaeth wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ar sail gydredol, ond caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond eu harfer os rhoddir cydsyniad gan Weinidogion Cymru. Yn gyntaf, gall Gweinidogion Cymru ganiatáu cynnwys cyfran ddigonol o Brotein Anifeiliaid wedi'i Brosesu (PAP) sy'n dod o anifeiliaid cnoi cil bach neu anifeiliaid cnoi cil sy'n golygu bod y cynnyrch yn annymunol i anifeiliaid, neu sydd fel arall yn effeithiol i atal camddefnyddio'r cymysgedd at ddibenion bwydo. Yn ail, gall Gweinidogion Cymru dderbyn defnyddio gwrteithiau organig neu wellhäwyr pridd sy'n cynnwys cydrannau eraill neu ddefnyddio dulliau eraill i atal defnyddio'r gwrteithiau organig neu'r wellhäwyr pridd fel porthiant, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â rheolau llym.

Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 wedi'u haddasu i gywiro ambell fân anghysondeb o ran terminoleg yn Rheoliadau 9(6) (b), (7) (a) a 10(4).

Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau 2019) a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/OIvKCJP3

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae tair swyddogaeth wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ar sail gydredol, ond caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond eu harfer gyda chysyniad Gweinidogion Cymru, fel y nodir uchod.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Gallai swyddogaethau a drosglwyddir yn gydredol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006) (GoWA 2006). Mae'n bosibl, felly, y gallai hynny gyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud sawl newid technegol i offerynnau presennol ac yn ystyried newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth yr UE na ellid eu cynnwys mewn offerynnau ymadael â'r UE cynharach. Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn cywiro mân wallau mewn offerynnau ymadael â'r UE cynharach. Mae Rheoliadau 2019 yn sicrhau, felly, fod cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i weithio'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Bydd Rheoliadau 2019 yn dilyn y weithdrefn gwneud cadarnhaol ar gyfer achosion brys sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Yn unol â'r weithdrefn hon, gall Rheoliadau 2019 gael eu gwneud heb fod drafft o'r offeryn yn cael ei osod o flaen llaw, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad pob Tŷ'r Senedd, ar yr amod bod datganiad yn cael ei wneud gan y Gweinidog perthnasol sy'n nodi ei bod yn angenrheidiol gwneud y rheoliadau heb fod drafft yn cael ei osod a'i gymeradwyo oherwydd brys.

Mae Defra wedi cadarnhau bod Rheoliadau 2019 wedi'u gwneud a'u gosod ar 5 Medi a byddant yn dod i rym yn union cyn y diwrnod ymadael (31 Hydref 2019). Fodd bynnag, bydd dal angen cymeradwyo Rheoliadau 2019 drwy benderfyniad pob Tŷ'r Senedd cyn diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar 5 Medi. O bwys, mae paragraff 5(5) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu na ddylid ystyried unrhyw amser y mae'r Senedd wedi'i haddoedi (*prorogue*d) neu'i diddymu neu naill Dŷ'r Senedd wedi'i ohirio am fwy na phedwar dydd wrth gyfrifo'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau.

Nid oedd Defra wedi ceisio am gysyniad Gweinidogion Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill cyn gwneud a gosod Rheoliadau 2019. Esboniodd Defra mai er hwylustod y gwnaed hyn. Pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod Rheoliadau 2019 yn eu lle cyn cyfarfod Pwyllgor Sefydlog y Comisiwn Ewropeaidd ar Blanhigion, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant ar 11 Hydref; i osgoi bod cais gan drydedd wlad am restriad yn cael ei wrthod.

Er bod Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau 2019, dylid nodi y dylai Llywodraeth y DU, fel mater o egwyddor, geisio cysyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud a gosod yr offeryn.